



YN Y BWLETIN TYMOR YMA

- ✓ GWEFAN YR YSGOL
- ✓ CYMDEITHAS RHINIEN A CHYFEILLION
- ✓ DYDDIADAU PWYSIG
- ✓ NOSON GOFFI BL II
- ✓ EIRA—TREFNIADAU
- ✓ PROBLEM, CWESTIWN, CŴYN?
- ... A LLAWER MWY

GAIR GAN Y PRIFATHRO

AROLWG YSGOL – ADRODDIAD ARBENNIG GAN ESTYN



Mr Gareth T.M. Jones

Mae'r Bwletin hwn yn hwyrach nag arfer oherwydd yr Arolwg Ysgol yn ystod ail wythnos mis Ionawr.

'Roedd yr Arolygwyr yn canmol yr ysgol yn arw.

Bydd yr Adroddiad yn cael ei gyhoeddi ganol mis Mawrth.

GWEFAN NEWYDD YR YSGOL

www.ysgolbotwnnog.org

The screenshot shows the website for Ysgol Botwnnog. At the top, the school's name is written in large white letters on a green background. Below this is a photograph of the school building. A navigation menu contains buttons for 'Hafan', 'Newyddion', 'Ysgol', 'Disgyblion', 'Staff', 'Rhieni', 'Llywodraethwyr', and 'Y Gymuned'. On the left side, there is a section titled 'Cysylltu' with contact information: Ysgol Botwnnog, Botwnnog, Llyn, Gwynedd, LL53 8PY, Ffôn: 01758 730220, Ffacs: 01758 730439, E-bost: Cliciwch yma, and Map: Cliciwch yma. The main content area is titled 'Croeso i Ysgol Botwnnog' and contains a welcome message in Welsh, a small portrait of Mr. Gruffydd Parry, and a list of school details: 'O'r Sarn ac Aberdaron Tudweiliog, Abersoch O'r Rhiw neu o Lanengan O ba le bynnag boch.' and 'Yr ysgol orau welwyd Fe wyddwn ni bob un, Yw'r ysgol ym Motwnnog Hen ysgol hogia (a genod) Llŷn'. At the bottom, there is a note: 'Er bod y manylion yn y ddogfen hon yn gywir pan gyhoeddir hwy, ni ellir rhagdybio na fydd unrhyw newid a all effeithio ar y trefniadau perthnasol cyn dechrau neu yn ystod y flwyddyn ysgol neu mewn'.

Mae gwefan newydd yr ysgol yn awr yn fyw ar y we. Mi fyddwn yn ychwanegu at ei gynnwys yn rheolaidd i'w gadw'n gyfredol.

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar sut i'w gwella neu yn teimlo fod rhywbeth pwysig ar goll yna gallwch ddefyddio y ddolen **Cysylltu** ar y dudalen **Rhieni** i'n hysbysu.

CYMDEITHAS RIENI A CHYFEILLION YR YSGOL

Diolch i'r Gymdeithas am drefnu Ffair Grefftau llwyddiannus. £1221.39 at offer addysgol i'r ysgol.

Beth am ymaelodi â'r Clwb Codi Arian? - £12.00 y flwyddyn (siec i'r ysgol neu archeb banc). Manylion gan Mrs. Nerys Williams, yr ysgrifenyddes - 01758 730220. Cyfle i ennill arian yn dymhorol (hyd at £100).

Swyddogion 2013/2014

Cadeiryddes – Mrs. Shân Williams,

Ysgrifenyddes – Mrs. Hafwen Hughes.

Casglwyd eleni fel â ganlyn: Clwb Codi Arian - £1631; Antur Waunfawr - £106.20; Cwis Tŷ Newydd, Sarn - £164.60; Rhoddion (gan unigolion) - £90.00

Diolch i bawb a gefnogodd y mentrau hyn. Mae'r Gymdeithas Rieni wedi rhoi arian at adnewyddu'r Llyfrgell.

BLWYDDYN 11

Mae'n bwysig fod disgyblion Blwyddyn 11 a 10 yn yr Ysgol bob dydd. **Ni ddylent fynd ar wyliau yn ystod tymhorau'r ysgol mewn blwyddyn mor dyngedfennol.** Nid oes caniatâd i dynnu disgyblion Blwyddyn 11 a 10 o'r Ysgol am wyliau. Os gwneir hynny bydd y disgybl yn cael ei farcio fel 'Absenoldeb Anawdurdodedig'.

Colli Ysgol – colli gwersi, colli arweiniad athro / athrawes, colli gwaith, colli cyfle i wella y rhannau allweddol o'r cwrs – y cwbl yn amharu ar botensial y disgybl i gael graddau uwch TGAU.

Mae'n adeg arbennig o brysur i'r disgyblion hŷn. Dyma dymor cwblhau pob gwaith cwrs a ffolio. **Pob nos Lun a nos Fercher mae cyfle i'r disgyblion aros yn yr ysgol i weithio tan 5.00. Gellir trefnu i fynd â'r disgyblion gartref ym mws mini yr ysgol.**

Os yw eich mab / merch angen cymorth ychwanegol mewn unrhyw bwnc yna cysylltwch â'r ysgol.

Cofiwch hefyd am yr help ychwanegol sydd i'w gael gan yr Anogwyr Dysgu Mrs. Carol Pilling a Mrs. Ann James-cymorth i drefnu gwaith ac i gwblhau tasgau.

NOSON GOFFI BLWYDDYN 11

Diolch i ddisgyblion Blwyddyn 11 am drefnu'r Noson Goffi a'r holl weithgareddau adloniant.

Casglwyd £7,600 eleni sy'n swm anhygoel at achosion da.

Aelodau'r Pwyllgor oedd:- Tem Casey; Mari Enlli Evans; Magi Hughes; Micah Hayden; Danial Hughes; James Pearson; Dewi Thomas; Callum Brady; Wil Chidley; Leigh Hughes; Twm Lee Jones; William Paice; Alicia Barge; Siriol Parry; Ffion Elen Williams; Steffan Brosschot; Iwan John Griffith; Demi Davies - Ysgrifennydd; Tom Dennis, Is-gadeirydd; Lois Llywelyn Williams - Cadeirydd.

Diolch i rieni, perthnasau, cyfeillion a busnesau Llŷn am eu cefnogaeth hael.

ANELU I WELLA YN 2014

Fel rhieni / gwarcheidwaid gallech helpu eich plentyn i wella safon ei waith trwy ddilyn y canllawiau isod:-

Edrychwch ar daflen 'Gwaith Cartref' eich mab / merch bob nos (mae taflen 'Gwaith Cartref' yng nghefn eu llyfrau gwaith ymhob pwnc).

Gwrandewch ar eich mab / merch yn darllen pytiau o'r gwaith cartref neu yn egluro yr atebion er mwyn cadarnhau fod y gwaith yn ystyrllon ac yn addas.

Ar gyfer profion dosbarth - adolygwch gyda'ch mab / merch a sicrhau fod o / hi yn deall ac yn cofio y termau pwysicaf.

Sicrhewch fod eich plentyn yn darllen llyfr Cymraeg neu Saesneg am o leiaf 30 munud bob nos. Dyma un cam pwysig all arwain at welliant mawr yn 2014.

GWISG YSGOL

Diolch am eich cydweithrediad er mwyn sicrhau cysondeb a pharch tuag at reolau ac ethos yr ysgol. Bydd angen côt ddu neu hwdi ddu ar y disgyblion pan fydd y tywydd yn oer / gwlyb, **ond nid ydynt i wisgo'r gôt na'r hwdi y tu fewn i'r adeilad.**

Nid yw'r gôt / hwdi i'w gwisgo yn lle crys chwys du yr ysgol.

Dim capiau o unrhyw fath.

Hoffwn eich atgoffa hefyd bod caniatâd i'r disgyblion wisgo **un pâr o studs bach yn y clustiau yn unig ac un fodrwy ar fys. Dim mwclis na breichled.**

Disgwylir i ddisgyblion wisgo esgidiau / trainers unlliw DU fel rhan o'r wisg ysgol.

Dim jîns, cords, trowsus 'combat', 'cargo' du.

Sgert ddu blaen rhesymol o ran hyd gyda theits duon.

Mae'r wisg ysgol ar werth yn y swyddfa.

YMDDYGIAD DISGYBLION

Ar adegau mae ymddygiad lleiafrif bychan o ddisgyblion yn gallu amharu ar gynnydd, mwynhad a diogelwch disgyblion eraill. 'Rydym yn benderfynol o sicrhau nad yw'r lleiafrif yma yn dylanwadu yn anffafriol ar addysg y mwyafrif.

1. YMDDYGIAD YN Y GWERSI AC AR Y CORIDORAU

Mae'r disgyblion yn llawn ymwybodol o ddisgwyliadau'r ysgol a'r angen i ddangos parch tuag at aelodau o staff, disgyblion eraill a'r adeilad. Cysylltir gyda chi, fel rhieni, os nad yw disgybl yn gallu cydymffurfio â'r rheolau sylfaenol. Gall parhad mewn ymddygiad o'r fath arwain at waharddiad o'r ysgol.

2. BYSIAU YSGOL

Yn achlysurol bydd cwyn am ymddygiad annerbyniol rhai disgyblion ar y bysiau ysgol. Yn dilyn trafodaethau gyda'r Awdurdod Addysg a'r cwmnïau bws rhagwelir yn y dyfodol na fydd y cwmnïau bws yn fodlon cludo rhai unigolion yn ôl ag ymlaen i'r ysgol. Bydd y cyfrifoldeb am y trefniadau cludiant wedyn yn disgyn ar y rhieni.

Dim ysmegu ar y bws. Disgyblion i eistedd yn eu seddau drwy gydol y siwrnai.

3. CYFFURIAU/SYLWEDDAU ANGHYFREITHLON

Nid ydym yn fodlon derbyn unrhyw sylwedd anghyfreithlon ar dir yr ysgol. Bydd unrhyw ddisgybl sydd â sylwedd o'r fath yn ei feddiant, neu yn bwriadu dosbarthu sylweddau, yn wynebu gwaharddiad parhaol o Ysgol Botwnnog.

4. RHEOLAU SYLFAENOL YR YSGOL

Nid oes hawl gan ddisgyblion:-

- i ddod â sigaréts i'r ysgol nac i ysmegu ar dir yr ysgol;
- i ddod ag alcohol na chyffuriau i'r ysgol;
- i ddod ag arf beryglus megis cylllell i'r ysgol;
- i ddod â ffonau symudol na chamerau i'r ysgol;
- i gnoi gwm yn yr ysgol.

RHAI DYDDIADAU PWYSIG

11.02.14	Noson Rieni / Athrawon Blwyddyn 9
24 – 28.02.14	Gwyliau Hanner Tymor
04.03.14	Noson Rieni / Athrawon Blwyddyn 10
10.03.14 – 14.03.14	Arholiad Celf Blwyddyn 11
18.03.14.	Noson Rieni / Athrawon Blwyddyn 8
07.04.14 a 08.04.14.	Adroddiad Llafar Llên Cymraeg
08.04.14	Noson Rhieni / Athrawon Blwyddyn 9 (Dewisiadau)
14.04.14 – 25.04.14	Gwyliau Pasg
28.04.14	Diwrnod cyntaf Tymor yr Haf

EIRA

Hysbysu rhieni ben bore

Os bydd angen cau yr ysgol oherwydd eira trwm bydd y cyhoeddiad ar Radio Cymru rhwng 7.00 ac 8.00 y bore. ac ar wefan y Cyngor - www.gwynedd.gov.uk .

Trefniadau yn ystod y dydd

Os daw eira mawr yn ystod y dydd a bod angen anfon y plant gartref oherwydd ystyriaethau iechyd a diogelwch - dyma fydd y drefn:-

(i) y plant i fynd gartref ar y bws.

(ii) wedi dod oddi ar y bws y plant i fynd i'w cartrefi neu i dŷ perthynas neu ffrind (yn ôl eich cyfarwyddyd chi fel rhieni).

Mi geisiwn hefyd hysbysu rhieni trwy neges destun os bydd rhaid cau yr ysgol.

STAFF

Llongyfarchiadau i Ms Rebeca Hughes a Mr Elgan Rowlands ar enedigaeth Elis Rhys; Mrs Tara Evans ar enedigaeth Iolo Madog; Ms Llinos Hughes ar enedigaeth Mirain Lliwen; Mrs Gwenllian Hughes Jones ar enedigaeth Hawys Elin; a Mrs Mair Evans ar enedigaeth Wiliam Aaron.

Croeso yn ôl i Miss Sioned Huws, Hanes a Miss Fiona Bridle, Gwyddoniaeth.

BWLIO

Nid yw bwlio yn broblem fawr yn Ysgol Botwnnog. **Onid** pan mae achos o fwlio mae staff yn gwneud eu gorau i rwystro'r bwlio rhag digwydd eto. Mae Polisi Atal Bwlio yn yr ysgol gyda strategaethau i gefnogi unrhyw ddisgybl sy'n cael ei fwlio ac i ddelio â'r bwli.

'Rydym am i'n pobl ifanc fod yn hapus a diogel yn yr ysgol. Nid ydym am weld unrhyw ddisgybl yn dioddef bwlio.

Mae'r disgyblion yn gwybod y gallant gysylltu â Bydis Blwyddyn 11 neu unrhyw aelod o'r staff i adrodd am unrhyw fath o fwlio.

Mi wyddoch hefyd fel rhieni / gwarcheidwaid y gallwch gysylltu â mi neu'r dirprwyon i drafod bwlio neu i adrodd am fwlio (bwlio yn yr ysgol, ar y bws neu trwy'r mobile neu safleoedd cymdeithasol fel 'Facebook', 'Twitter'.)

Bydd materion yn ymwneud â bwlio yn cael blaenoriaeth gennym fel ysgol. **Nid yw bwlio yn dderbyniol yn Ysgol Botwnnog.** Mae posteri gwrth-fwlio yn amlwg ar waliau'r ysgol ac yn ategu y neges hon. Mae'n gyfrifoldeb ar ddisgyblion a staff i sicrhau fod yr ysgol yn lle diogel.

Gallech hefyd ymweld â safle we www.bullying.co.uk a llawer o safleoedd tebyg am gyngor pellach—ceir cysylltiadau at rhain ar dudalen **RHIENI** gwefan yr ysgol

PROBLEM? CWESTIWN? CŴYN?

Mae enw da i'r ysgol o safbwynt gofalu am les a datblygiad academaidd y disgyblion.

Pan fo disgybl yn poeni am rywbeth ac yn anhapus fe wyddoch fel rhieni y gallwch ffonio'r ysgol ar 01758 730220 i drafod unrhyw fater â'r Prifathro. Ceisiwn ymateb o fewn 24 awr.

Gallwch hefyd yrru neges i'r ysgol yn syth o'r gwefan—Dolen *CYSYLLTU* ar y dudalen *RHIENI*.



Ella Windsor

Ella Windsor yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth dringo ar gyfer tîm Prydain



Twm Lee Jones, Ella Devalle a Tomos Hughes

Yn derbyn tystysgrif Cymorth Cyntaf ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus.



Cinio Nadolig Clybiau Henoed Llŷn

Trefnwyd cinio Nadolig i tua 60 o drigolion Llŷn gan grŵp BAC bl 10



Elen Evans Blwyddyn 8

Elen yn derbyn llongyfarchiadau Mrs Rhydderch ar ôl codi bron i £80 tuag at Readathon



Dewi Rhys a Lois Llywelyn Williams

Dewi Rhys yn agor y noson goffi yn swyddogol gyda chadeirydd y pwyllgor



Llyfrgell yr Ysgol

Mae llyfrgell yr ysgol wedi cael ei hail-wampio yn ddiweddar.